

Cyfarfod Blynyddol 2022 - Adroddiad yr Ysgrifennydd Gweithgareddau

Dyma'r degfed adroddiad i mi ei gyflwyno ac, fel y nodais y llynedd, hwn fydd yr olaf gan y byddaf yn ymddiswyddo fel Ysgrifennydd Gweithgareddau. Bu gwneud y gwaith yn brofiad braf dros ben gan ei fod ynghlwm â holl bwrpas bodolaeth y clwb o drefnu gweithgareddau ar y mynydd a bu'n fodd i ddod i adnabod a chadw cysylltiad â'n haelodau ledled Cymru – a thu hwnt o ran hynny.

Fel erioed, rhaid diolch i bawb sydd wedi bod yn barod i drefnu ac arwain teithiau, gan gynnwys amryw yn gwneud hynny am y tro cyntaf. Diolch i chi i gyd am eich cydweithrediad tros y flwyddyn ddiwethaf ac, yn wir, tros y ddegawd a aeth heibio. Diolch hefyd i'm cyd-swyddogion ac aelodau'r pwyllgor; rydym yn ffodus dros ben fel clwb o gael pobl mor ymroddedig i gymryd yr awenau. Mae sawl Cadeirydd wedi mynd a dod a phob un wedi cynnig arweiniad doeth a chytbwys. Bu Dilys yn Drysorydd hynod o effeithiol ers rhai blynyddoedd bellach. Mae dau wedi bod yn eu swyddi ers tipyn mwy na bum i'n swyddog – ac yn dal ati! Dau lolo fel mae'n digwydd, lolo Roberts yn Ysgrifennydd Cyffredinol dibynadwy sy'n llwddo i gadw trefn arnom ac lolo ap Gwynn, sy'n gwneud y gwaith di-sylw o gynnal y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol sydd mor bwysig i ledu'r neges am y clwb. Mae bob amser yn barod i newid a diweddarau ar fyr-rybudd os oes angen.

Cynhaliwyd o leiaf 61 o deithiau ers Cyfarfod Cyffredinol 2021, 11 yn y de a 12 o deithiau dydd Mercher. Diolch ar ein rhan ni oll i Dewi a Haf am drefnu'r teithiau hynny. Daeth 46 ar daith yr Eisteddfod o Ystrad Fflur i Lynnoedd Teifi a llawer ohonom yn troedio'r tir yma am y tro cyntaf ac yn cael profi cymaint sydd gan Gymru i'w gynnig y tu hwnt i'r mynyddoedd adnabyddus. Mae bwriad i ddynodi taith flynyddol wythnos y brifwyl yn Daith Goffa Gareth Pierce. Bu Darlith Goffa Llew Gwent yn llwyddiant unwaith eto a phawb – wel, pawb a lwyddodd i gael lle – wedi mwynhau sgwrs Caradog Jones yn fawr iawn.

Trefnwyd penwythnos o hyfforddiant gan yr Urdd yng Nglan-llyn ddiwedd Medi i 11 o bobl ifanc y neu harddegau canol o bob cwr o Gymru gan ddefnyddio rhan o'r arian a gyfranwyd er cof am Gareth Pierce. Bu'n llwyddiant ac mae bwriad i drefnu hyfforddiant tebyg yn y dyfodol.

Trefnwyd dau ymweliad â'r Alban, i Crianlarich ym mis Chwefror ac i Drumnadrochit ger Inverness ym mis Mai. Diolch i Gareth Everett Roberts am drefnu'r rheiny. Gan fod y Crianlarich Hotel yn cynnig llety mor gysurus a bod y pentref yn ganolfan mor hwylus, penderfynwyd dychwelyd yno am y trydydd tro fis Chwefror nesaf.

Rwyf yn hyderus y bydd Ysgrifennydd Gweithgareddau newydd yn cael ei benodi yn y Cyfarfod Cyffredinol a fydd yn gaffaeliad di-os i'r clwb. Gwn y byddwch yr un mor barod eich cefnogaeth i'r swyddog newydd ac y buoch i mi. Hoffwn ddiweddu ar nodyn cadarnhaol o nodi bod cynnydd sylweddol yn nifer yr aelodau iau sydd wedi ymaelodi a cherdded yn rheolaidd, a'r rhai hynny'n fynyddwyr a mynyddwagedd o'r iawn ryw. Mae dyfodol y clwb yn ddiogel!

Eryl Owain

Hydref 2022